Carwyn Jones AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y T•
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

21 Gorffennaf 2009

Annwyl Dafydd

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi fod angen torri'r rheol 21 o ddiwrnodau er mwyn dod â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009 i rym yng Nghymru. Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 20 Gorffennaf 2009, daethant i rym ar 21 Gorffennaf 2009 ac fe'u gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Gorffennaf 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â chyflenwi cyffuriau gwrthfeirysol pan fydd clefyd yn bandemig neu pan ragwelir clefyd pandemig. Maent yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004 ac maent yn gymwys i gyffuriau gwrthfeirysol a restrir yn gyfredol yn Atodlen 2 i Reoliadau 2004, (cyffuriau neu feddyginiaethau i'w harchebu mewn amgylchiadau penodol yn unig) ("y Rhestr Lwyd"). Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2004 yn darparu na chaniateir archebu'r cyffuriau a restrir yn Atodlen 2 ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol cyffredinol ar eu cyfer o dan gontract GMC onid yw'r claf yn dod o fewn y dosbarth a ddiffinnir yn yr Atodlen ac onid archebir y cyffuriau at y dibenion a ddiffinnir ynddi. Yn unol â hynny, er mwyn sicrhau bod meddygon teulu'n gallu rhoi presgripsiynau (WP10) ar gyfer y cyffur gwrthfeirysol Zanamavir (Relenza) (yn ogystal ag Oseltamivir (Tamiflu) y gwnaed Rheoliadau diwygio blaenorol mewn cysylltiad ag ef yn ddiweddar) yn unol â rhwymedigaethau eu contract GMC, bydd angen gwneud diwygiad arall i Reoliadau 2004 er mwyn cynnwys amgylchiadau ychwanegol y caniateir archebu'r cyffur Zanamivir (Relenza) o dan gontract GMC oddi tanynt fel eu bod yn cynnwys y canlynol-

- bod clefyd yn bandemig neu y rhagwelir bod clefyd ar ddigwydd yn bandemig a;
- bod clefyd, neu y gall clefyd fod, yn fygythiad difrifol i iechyd pobl;
- a bod cyffuriau'n cael eu cyflenwi'n unol â phrotocol sy'n berthnasol i'r clefyd hwnnw fel y darperir ar ei gyfer yn erthygl 12F o Orchymyn Meddyginiaethau Presgripsiwn yn Unig (Defnydd Dynol) 1997 neu erthygl 8 o Orchymyn Meddyginiaethau (Gwerthu gan Fferyllfeydd ac yn Gyffredinol – Esemptiad) 1980.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau ddod i rym ar unwaith er mwyn sicrhau bod meddygon teulu'n gallu rhoi presgripsiynau ar gyfer y cyffur gwrthfeirysol Zanamavir (Relenza) yn unol â rhwymedigaethau eu contract GMC. Am y rhesymau hyn bernir bod angen torri'r rheol 21 o ddiwrnodau er mwyn i'r Rheoliadau allu dod i rym ar 21 Gorffennaf 2009. Byddai methu gwneud y ddeddfwriaeth ar frys yng Nghymru'n peryglu ein hymdrechion i gynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol am gyfnod dros dro yng Nghymru tra bo nifer yr achosion o'r haint yn dal yn isel iawn yma a byddai'n peryglu ein hymdrechion i sicrhau bod triniaeth wrthfeirysol ar gael ar bresgripsiwn drwy Fferylliaeth Gymunedol i unigolion sy'n dangos symptomau o'r clefyd. Gall hyn arwain at gyhuddiadau o beryglu mesurau diogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn ystod y pandemig.

Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru (FfGC), Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr (RPSGB) a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS) ac maent i gyd yn llwyr gefnogol i'r cam hwn o dan yr amgylchiadau presennol.

Oherwydd bod brys am yr Offeryn, ni fu'r Rheoliadau hyn yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Serch hynny, mae Memorandwm Esboniadol wedi ei baratoi ac mae wedi ei osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Janet Ryder, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ac at Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir